# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 17 Mehefin 2019 yn Siambr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am.

**YN BRESENNOL**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Peter Lewis (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Dylan Rees (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Brian Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| Ann Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Ian Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| Veronica Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| Richard Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Eric Wyn Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Sue Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Geoff Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Roger Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Paul Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| J Rodney Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Nigel Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Owen Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd yr Awdurdod); R Fairhead a Kevin Roberts (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol); H MacArthur ac S Morris (Prif Swyddogion Cynorthwyol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); Pam Bass a Diane Davies (Ysgrifenyddiaeth).

**YMDDIHEURIADAU**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Meirick Lloyd Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Michael Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Gethin Glyn Williams | Cyngor Gwynedd |
| David Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 RHYBUDD O FATERION BRYS

2.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 MAWRTH 2019

3.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr ATA a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2019 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod gwir a chywir.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Dywedodd y PST fod y negodiadau sy'n digwydd drwy'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol, ynglŷn â chyflog ac amodau diffoddwyr tân, yn dal i fynd yn eu blaenau. Y neges allweddol yw nad oes unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud hyd yma. Caiff yr Aelodau wybod beth yw'r datblygiadau.

4.2 Mynegodd yr Aelodau eu gwerthfawrogiad o waith y diffoddwyr tân yn ystod y llifogydd yn ddiweddar.

5 CYNLLUN GWELLA A LLESIANT 2020/21

5.1 Fe wnaeth PSC Morris gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi argymhellion y Panel Gweithredol i'r Awdurdod ac yn ceisio cymeradwyaeth i ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol ddrafft fel rhan o Gynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod ar gyfer 2020/21 ac ymlaen.

5.2 Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at amcanion llesiant tymor hir presennol yr Awdurdod, ac roedd yn amlinellu'r amserlen ar gyfer llunio Cynllun 2020/21, ymgynghori yn ei gylch, a'i gymeradwyo.

5.3 Rhoddodd PSC Morris wybod i'r Aelodau fod y Gweithgor Cynllunio wedi cwrdd dair gwaith i ddechrau datblygu'r Cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac mai argymhelliad y Gweithgor Cynllunio i'r Panel Gweithredol oedd y dylai ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod ganolbwyntio eleni ar ddatblygu a mabwysiadu Strategaeth Amgylcheddol i'w chyflawni o Ebrill 2020 ymlaen. Byddai hyn yn digwydd yn unol ag ail amcan llesiant yr Awdurdod, a byddai'n ceisio ymdrin â'r agweddau sy'n ymwneud â chyfrifoldeb corfforaethol a chydymffurio yn ogystal ag effaith y newid yn yr hinsawdd ac amodau tywydd eithafol ar ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.

5.4 Fe wnaeth y PSC Morris atgoffa'r Aelodau fod yr Awdurdod, mewn gwirionedd, eisoes wedi mabwysiadu Datganiadau Amgylcheddol a Pholisi Ynni flynyddoedd yn gynharach, ond bod y cynnydd wedi cael ei arafu ar gyfer dyfodiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a sefydlu cynlluniau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Drwy roi bywyd newydd i'r gwaith hwn nawr, sef drwy ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol newydd ar gyfer yr Awdurdod, gellid delio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn fwy amlwg, a chysoni mor agos â phosibl ag amcanion amgylcheddol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru.

**5.5 PENDERFYNWYD:**

**(i) datblygu Strategaeth Amgylcheddol ddrafft, a**
**(ii) cyfnod o ymgynghori dros haf 2019 er mwyn ystyried y sylwadau wrth ddatblygu'r Strategaeth derfynol i'w gweithredu o Ebrill 2020 ymlaen.**

6 TREFNIADAU LLYWODRAETHU A CHYLLID AWDURDODAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU

6.1 Rhoddodd y PST wybod i'r Aelodau am y sefyllfa ddiweddaraf o ran y newidiadau arfaethedig i drefniadau cyllid a llywodraethu'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru fel y nodir yn y Papur Gwyn "Diwygio Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru" a gyhoeddwyd ar 13 Tachwedd 2018.

6.2 Cadarnhaodd y PST nad yw'r mater wedi symud ymlaen gan nad yw ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael ei gyhoeddi eto.

6.3 Cafodd yr Aelodau wybod y bydd y Prif Swyddog Tân a'r Cadeirydd yn mynychu cyfarfod ar 19 Mehefin 2019 gyda Hannah Blythyn, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, sef y gweinidog arweiniol ar gyfer materion tân erbyn hyn.

6.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd, a chael diweddariad pellach yn dilyn y cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol.**

7 DATGANIAD O GYFRIFON DRAFFT 2018/19

7.1 Fe wnaeth y Trysorydd gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi Datganiad o Gyfrifon drafft 2018/19, sy'n cynnwys gwybodaeth am sefyllfa alldro gwariant refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, ynghyd â chrynodeb o eitemau allweddol y fantolen, sy'n cynnwys cynnal cronfeydd a glustnodwyd.

7.2 Cafodd yr Aelodau wybod bod y cyfrifon drafft ar gyfer y flwyddyn yn cadarnhau gorwariant o £3,000 yn erbyn y gyllideb refeniw o £34.1 miliwn a gymeradwywyd.

7.3 Fe wnaeth y Trysorydd esbonio hefyd bod cyllideb gyfalaf o £4.9 miliwn wedi cael ei chymeradwyo, ac yna wedi'i diwygio i £5.9 miliwn, ond dim ond £1.9million a gafodd ei wario mewn gwirionedd. Mae hyn yn adlewyrchu'r camau a gymerwyd yn y flwyddyn i ohirio a lleihau'r rhaglen gyfalaf.

7.4 Cadarnhaodd y Trysorydd hefyd fod yr Awdurdod yn cadw £0.8 miliwn mewn cronfeydd a glustnodwyd (fel ar 31 Mawrth 2019) rhag ofn.

7.5 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi sefyllfaoedd yr alldro cyfalaf a refeniw drafft, fel sydd yn Natganiad o Gyfrifon 2018/19;**
**(ii) dirprwyo'r gwaith o gymeradwyo Datganiad o Gyfrifon archwiliedig terfynol 2018/19 i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 29 Gorffennaf 2019; a**
**(iii) cymeradwyo'r cronfeydd a glustnodwyd, fel sydd yn Natganiad o Gyfrifon 2018/19.**

8.0 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2018/19

8.1 Fe wnaeth PSC MacArthur gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2018/19 i'r Aelodau mewn fformat diwygiedig er mwyn bod yn gyson â'r trefniadau llywodraethu ymhob un o saith egwyddor graidd fframwaith CIPFA/Solace.

8.2 Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft yn destun adolygiad allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â'r amserlenni ar gyfer archwilio'r Datganiadau Ariannol.

8.3 Fe wnaeth y PSC MacArthur roi manylion Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethiant, sy'n cael ei adolygu bob chwarter, ac fe wnaeth yr Aelodau nodi'r Adolygiad o'r Fflyd Wen sydd wrthi'n cael ei gynnal ac a gaiff ei adrodd drwy'r strwythur llywodraethu.

8.4 I ymateb i gwestiwn gan un o'r Aelodau, fe wnaeth y PSC MacArthur gadarnhau'r amserlenni ar gyfer cynnal yr adolygiad o seiberddiogelwch.

8.5 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi cynnwys Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft yr Awdurdod ar gyfer 2018/19; a**

**(ii) dirprwyo'r gwaith o gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol archwiliedig terfynol 2018/19 i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 29 Gorffennaf 2019.**

9 MONITRO PERFFORMIAD 2018/19

9.1 Fe wnaeth y PSC Morris gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o weithgareddau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystod 2018/19, ynghyd â'i berfformiad mewn perthynas â'i amcanion.

9.2 Un mater arbennig o bwysig oedd y cynnydd mawr yn nifer y tanau yn yr awyr agored yn ystod y flwyddyn, a phriodolwyd hyn i'r haf sych a phoeth yn 2018.

9.3 Tynnwyd sylw hefyd at y gostyngiad parhaus yn nifer y tanau damweiniol mewn anheddau, gan fod y nifer wedi gostwng yn ystod y flwyddyn i'r lefel isaf a gofnodwyd erioed yng Ngogledd Cymru.

9.4 Roedd nifer yr argyfyngau nad oeddent yn danau, ac a aethpwyd atynt, lawer yn is na'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod y prosiectau peilot wedi dod i ben ac roedd y niferoedd wedi dychwelyd i lefelau tebyg i rai 2015/16.

9.5 I ymateb i gwestiwn am y Tîm Cymorth Cymunedol, cytunodd y Cadeirydd i godi'r mater gyda'r Dirprwy Weinidog yn eu cyfarfod nesaf ar 19 Mehefin 2019.

9.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd**

10 ADRODDIAD BLYNYDDOL DYLEDION DRWG A DDILEWYD 2018/19

10.1 Fe wnaeth y Trysorydd gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau mai £300 oedd cyfanswm y dyledion drwg a ddilewyd rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

10.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd**

11 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD PENSIWN LLEOL 2018/19

11.1 Fe wnaeth y PSC MacArthur gyflwyno'r adroddiad a oedd yn nodi'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd Pensiwn Lleol yn ystod 2018/19, ac a gafodd ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 2 Mai 2019.

11.2 Yn ystod 2018/19, cyfarfu'r Bwrdd dair gwaith a chynnal rhaglen waith a gafodd ei hystyried ymhob cyfarfod. Gan fod y Bwrdd nawr wedi cwblhau nifer o weithgareddau hyfforddi, bydd yn dechrau dewis

pynciau i'w dadansoddi'n fanwl gyda'r bwriad o wneud argymhellion i'r Awdurdod fel y bo'r angen.

11.3 Diolchodd y Bwrdd am yr hyfforddiant a gafodd.

**11.4 PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2018/19 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod**.

12 CWYNION A DATGELIADAU ER LLES Y CYHOEDD, A NEGESEUON O WERTHFAWROGIAD

12.1 Fe wnaeth y PSTC Roberts gyflwyno'r adroddiad a oedd yn nodi'r nifer a'r mathau o gwynion, datgeliadau er lles y cyhoedd, a negeseuon o werthfawrogiad a ddaeth i law i'r Gwasanaeth rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, a nifer y cwynion a gafodd eu datrys yn yr un cyfnod.

12.2 Nododd yr Aelodau fod 30 o gwynion wedi dod i law yn ystod y cyfnod (a chadarnhawyd naw ohonynt), yn ogystal â 240 o negeseuon o werthfawrogiad.

12.3 Am yr ail flwyddyn yn olynol, ni ddaeth unrhyw gwynion am faterion y Gymraeg, a hefyd cydnabuwyd bod cynnydd wedi bod yn nifer y negeseuon o werthfawrogiad yn y categorïau 'gwaith mewn partneriaeth' a 'gwaith mewn digwyddiadau gweithredol'.

**12.4 PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, a nodi'n ffurfiol y gwerthfawrogiad i'r staff am eu gwaith caled.**

13 CYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL YR AELODAU

13.1 Fe wnaeth y Clerc gyflwyno'r adroddiad a oedd yn tynnu sylw at y newidiadau i gydnabyddiaeth ariannol yr Awdurdod sy'n dod i rym ar ddyddiad y cyfarfod blynyddol, sef 17 Mehefin 2019. Mae'r newidiadau hyn yn cyd-fynd â'r penderfyniadau yn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ac maent yn adlewyrchu'r cynnydd yn y cyflog sylfaenol i aelodau etholedig prif gynghorau, gyda'r cynnydd felly i aelodau'r awdurdodau tân ac achub.

13.2 Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar gyda Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ac ailbwysleisiodd mor bwysig yw hi bod yr Aelodau'n mynychu'n rheolaidd.

**13.3 PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol am lwfansau a chydnabyddiaeth arianol yr aelodau, i'w gweithredu o 17 Mehefin 2019 ymlaen;**

**(ii) cytuno na ellir hawlio cynhaliaeth heblaw fod yr aelodau i ffwrdd o gartref am bum awr neu fwy, yn unol â rheolau Cyllid a Thollau EM;**

**(iii) rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc i ddiweddaru'r rhestr o gydnabyddiaethau ariannol yr aelodau o fewn cyfansoddiad yr Awdurdod, ac i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i restr 2019/20 o bryd i'r gilydd yn ystod y flwyddyn ddinesig er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth neu ddeiliaid swyddi'r Awdurdod, neu o ganlyniad i unrhyw adroddiadau atodol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.**

14 ADOLYGU CYFANSODDIAD YR AWDURDOD 2018/19

14.1 Fe wnaeth y Clerc gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y diwygiadau a wnaed yn ddiweddar i elfennau cyfansoddol Cyfansoddiad yr Awdudod, a chadarnhaodd nad oedd angen tynnu sylw at unrhyw bryderon.

**14.2 PENDERFYNWYD:**

**(i) cymeradwyo'r diweddariadau i'r Cyfansoddiad fel yr amlinellir ym mharagraffau 7 i 13 o'r adroddiad; a**

**(ii) nodi'r camau arfaethedig ar gyfer 2019/20 i sicrhau bod y Cyfansoddiad yn parhau'n gyfredol**.

15 YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH Y DU AR GYFYNGU AR DALIADAU YMADAEL YN Y SECTOR CYHOEDDUS

15.1 Fe wnaeth y PSC MacArthur gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am reoliadau arfaethedig Llywodraeth y DU i gyfyngu ar daliadau ymadael yn y sector cyhoeddus i uchafswm o £95,000, ac a oedd yn nodi ymateb arfaethedig i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y mater.

**15.2 PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r wybodaeth a ddarparwyd am y rheoliadau arfaethedig i weithredu cap o £95,000 ar daliadau ymadael yn y sector cyhoeddus; a**

**(ii) cefnogi'r ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU**.

16 MATERION BRYS

16.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

17 RHAN II

17.1 Nid oedd unrhyw eitemau wedi cael eu symud i Ran II.